



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Feithrin Rhydaman
Stryd Fawr
Rhydaman
Sir Gaerfyrddin
SA18 2NS**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/03/2013

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Feithrin Rhydaman yng nghanol tref Rhydaman ar yr un campws ag ysgol gynradd y dref. Yr awdurdod addysg yw Sir Gaerfyrddin. Daw'r disgyblion o ardal ddaearyddol eang. Mae amgylchiadau teuluol a chyrhaeddiad y plant pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol yn amrywio yn fawr.

Mae Ysgol Feithrin Rhydaman yn ysgol ddwy ffrwd ieithyddol yn ôl dymuniad y rhieni. Ar hyn o bryd, mae 48 yn y ffrwd lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng y dysgu ac mae 37 lle mae Saesneg yn brif iaith y dysgu ac fe ddysgir y Gymraeg fel ail iaith.

Mae 85 o blant tair i bedair oed ar y gofrestr a derbynnir y plant yn amser llawn y tymor ar ôl eu trydydd pen blwydd. Maent yn symud ymlaen i'r ysgol gynradd o ddewis eu rhieni yn y tymor cyn cyrraedd eu pump oed. Cânt eu haddysgu mewn grwpiau yn ôl eu datblygiad iaith, rhifedd a medrau trin manwl. Mae staff yr ysgol yn cynnwys y pennaeth, tair athrawes barhaol amser llawn a chwe chynorthwywraig dysgu sydd â chymwysterau lefel 3 neu uwch.

Mae 24.7% o'r plant â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Mae naw o blant ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ac nid oes disgyblion â datganiad o anghenion dysgu ychwanegol ar hyn o bryd.

Daw bron 92.7% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn iaith yr aelwyd. Siaredir y Gymraeg yn rhugl mewn teuluoedd 13% o'r plant sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Daw 6.1% o'r disgyblion o gefndiroedd ethnig gwahanol.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2012-2013 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Feithrin Rhydaman yw £4,116 sy'n cymharu gyda chyfartaledd cenedlaethol o £6,276 ar gyfer yr holl ysgolion meithrin a gynhelir yng Nghymru.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyson a da iawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- mae safonau llafar Cymraeg iaith gyntaf disgyblion yn rhagorol;
- mae disgyblion yn gyffredinol yn cyrraedd y safonau disgwylidig neu well ar gyfer eu hoed mewn datblygiad iaith a llythrennedd, datblygiad personol a chymdeithasol a datblygiad mathemategol;
- mae datblygiad medrau personol, cymdeithasol a chymunedol disgyblion yn rhagorol;
- mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog i'w disgyblion; ac
- mae'r addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth yn rhannu gweledigaeth glir yn llwyddiannus gyda'r llywodraethwyr, staff, rhieni a'r disgyblion;
- mae'r holl staff yn cydweithio'n dda iawn i godi safonau;
- mae'r gweithdrefnau ar gyfer hunanarfarnu yn datblygu'n dda ac yn cynnwys holl staff yr ysgol;
- mae'r ysgol yn dadansoddi data perfformiad yn effeithiol; ac
- mae'r ysgol yn gosod blaenoriaethau addas yn flynyddol yn y cynllun datblygu ysgol.

Argymhellion

- A1 Datblygu cyfleoedd ar gyfer ymarfer medrau ysgrifennu yn annibynnol ar draws yr ardaloedd dysgu
- A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu eu hunain
- A3 Sicrhau bod targedau'r cynllun datblygu ysgol yn rhoi ystyriaeth lawn i ffynonellau cyllid
- A4 Datblygu ymhellach rôl strategol y corff llywodraethol fel cyfeillion beirniadol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyson a da iawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn datblygu eu medrau dysgu yn llwyddiannus ac yn cyflawni gwaith o safon uchel yn aml iawn mewn sesiynau dysgu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos dealltwriaeth o'u dysgu eu hunain. Maent yn ymwybodol o'u targedau, ac maent yn trafod nodweddion da eu gwaith yn gynyddol ddeallus. Er eu bod yn datblygu'n ddysgwyr hyderus, ychydig ohonynt sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y ffrwd Gymraeg, beth bynnag eu cefndir ieithyddol, yn cyfathrebu'n ardderchog ar lafar yn Gymraeg. Maent yn sgwrsio'n glir a deallus am eu gwaith, ac yn anffurfiol mewn amrywiol sefyllfaoedd. Mae ganddynt eirfa gyfoethog ac amrywiol iawn, gan gynnwys geirfa ac idiomau sy'n berthnasol i'w meysydd gweithgarwch. Yn yr un modd, mae medrau llafar rhan fwyaf disgyblion y ffrwd Saesneg yn cyrraedd safon da iawn mewn gweithgareddau dosbarth ac ym mywyd beunyddiol yr ysgol.

Mae medrau cynnar darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion y ddwy ffrwd yn datblygu'n effeithiol iawn, trwy weithgareddau priodol. Gallant adnabod llythrennau cychwynnol geiriau'n gyson llwyddiannus, ynghyd â nifer gynyddol o eiriau cyfarwydd. Mae'r goreuon yn medru rhoi llythrennau at ei gilydd i greu geiriau, ac maent yn adnabod geiriau mewn llyfrau ac mewn arddangosfeydd ar draws yr ysgol. Mae adnabyddiaeth disgyblion o nodweddion llyfr yn gadarn iawn.

Mae medrau cynnar ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n briodol. Gallant greu a dilyn patrymau'n effeithiol, ond lleiafrif ohonynt sy'n mynd ati'n ddigymell i ysgrifennu fel rhan o weithgarwch cyffredinol y dosbarth.

Mae plant y ffrwd Saesneg yn datblygu medrau llafar Cymraeg yn effeithiol iawn. Maent yn plethu i ethos Cymreig yr ysgol yn ddiraffferth, ac yn defnyddio'r Gymraeg yn hwylus mewn gweithgareddau amrywiol.

Dim ond disgyblion o dair i bedair oed sydd yn yr ysgol. Oherwydd hynny nid oes data ar gael i gymharu perfformiad yr ysgol gydag ysgolion tebyg. Dengys system olrhain safonau'r ysgol bod disgyblion yn gyffredinol yn cyrraedd y safonau disgwylidig neu well o'u hoed mewn datblygiad iaith a llythrennedd, datblygiad personol a chymdeithasol a datblygiad mathemategol.

Nid oes patrwm o wahaniaeth yng nghynnydd bechgyn a merched, na phlant o gefndiroedd ethnig gwahanol. Mae plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys plant mewn gofal, yn gwneud cynnydd priodol tuag at eu targedau.

Lles: Rhagorol

Mae gan y plant ddealltwriaeth gref o sut gallant gadw'n iach a bod yn ddiogel. Gwyddant pa mor bwysig yw golchi dannedd, golchi dwylo, a chynhesu'r corff cyn ymarfer corfforol. Mae'r plant yn mwynhau'r cyfleon i chwarae yn yr ardal allanol ac yn gwneud hyn yn ddiogel ac yn rhydd o unrhyw berygl corfforol.

Mae'r plant yn mwynhau dysgu. Maent yn ymroi'n fyrlymus i'w holl weithgareddau, o fewn yr adeilad ac yn yr ardal allanol. Mae eu hymddygiad yn rhagorol ac maent yn ymddwyn yn aeddfed a hyderus iawn wrth ymwneud â'i gilydd, y staff ac gydag oedolion eraill.

Mae'r cyngor ysgol, sydd newydd ei ffurfio, yn gwneud penderfyniadau sy'n dylanwadu'n amlwg ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'n gwneud hyn mewn modd sy'n gydnaws â chyd-destun yr ysgol, er enghraifft, cynnal arolwg i gasglu barn eu cyd-ddisgyblion.

Mae'r plant wrth eu boddau yn croesawu pobl o'r gymuned i'w hysgol ac maent yn ymweld â'u cymuned yn gyson. Mae eu gweithgareddau tu allan i ffiniau'r ysgol, gan gynnwys ymweliadau, perfformiadau a chysylltiadau, yn nodweddiadol, gan eu bod yn arddangos lefel uchel iawn o fedrau personol a chymdeithasol. Mae hyn yn paratoi'r disgyblion ifainc hyn yn wych ar gyfer bywyd tu allan i'r ysgol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm a rhaglen o weithgarwch sy'n diwallu anghenion eu disgyblion ifainc yn llawn.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gwahaniaethu'n effeithiol o fewn eu cynlluniau gwaith. Mae grwpio plant yn ôl gallu mewn medrau allweddol yn sicrhau bod pob unigolyn yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae cynlluniau'r ysgol gyfan yn sicrhau bod datblygiad a dilyniant cadarn yn y medrau allweddol ar draws y cwricwlwm. Darpara'r athrawon gyfleoedd amrywiol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau siarad, gwranddo a darllen cynnar. Er hyn, nid oes digon o gyfleoedd llai ffurfiol ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu cynnar ar draws yr ardaloedd dysgu.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i'r plant ddilyn trywyddau ymchwiliol dan gyfarwyddyd athrawon a staff cynhaliol. Mae hyn yn datblygu hyder cynyddol yn y disgyblion. Mae ychydig o gyfleoedd o fewn gweithgareddau rhydd i ddisgyblion benderfynu ar gyfeiriad eu dysgu eu hunain.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn ardderchog. Nodweddiadol o hyn yw sut y gall disgyblion mor ifanc drafod gwaith Syr Kyffin Williams ac enwogion eraill Cymreig fel Aneurin Bevan.

Caiff y profiadau dysgu eu cyfoethogi'n sylweddol gan ymweliadau cyson oddi ar y safle a thrwy groesawu nifer helaeth o ymwelwyr i'r ysgol. Mae hyn yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chymunedol disgyblion yn effeithiol iawn ac yn cyfoethogi eu dealltwriaeth o fywyd tu hwnt i'r ysgol.

Darperir profiadau gwerthfawr a chreadigol iawn tu fewn a thu allan i'r dosbarthiadau i hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae dealltwriaeth y disgyblion ifainc o hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Addysgu: Da

Mae gan yr athrawon wybodaeth gadarn am holl feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen ac mae ystod ac ansawdd dulliau addysgu'r ysgol yn gyson dda.

Mae perthynas waith dda iawn rhwng athrawon, staff cymorth a disgyblion. Trwy sicrhau amcanion clir a phriodol ar gyfer eu gwersi, maent yn darparu gweithgareddau addas ar gyfer y disgyblion.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn modelu iaith arbennig o raenus ac yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau llafar disgyblion i'r eithaf. Mae bron pob un yn holi yn arbennig o gelfydd er mwyn ymestyn dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu medrau meddwl.

Mae trefn asesu cyrhaeddiad plant yn gadarn yn yr ysgol. Trwy asesu parhaus a dadansoddiadau manwl o ddata asesu, caiff cynnydd pob unigolyn ei fonitro'n gyson. Mae hyn yn galluogi staff i ddarparu cymorth ychwanegol i grwpiau o ddisgyblion ac unigolion yn ôl yr angen.

Mae'r athrawon i gyd yn cynnwys elfennau effeithiol o asesu ar gyfer dysgu yn eu gwersi. Mae adborth llafar llawer o'r athrawon a'r cymorthyddion yn adeiladol, ac yn mynegi yn glir yr hyn sydd ei angen i'r disgyblion ei wneud i wella eu gwaith. Mewn ychydig iawn o'r gwersi, nid oes digon o gyfle i ddisgyblion fyfyrion ar ba mor dda y maent wedi cwblhau'r dasg.

Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni ar gynnydd eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ansawdd y gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a ddarperir i'r dysgwyr yn yr ysgol yn dda iawn gyda'r athrawon yn rhoi arweiniad cadarn sy'n hyrwyddo lles disgyblion yn rhagorol.

Caiff pwysigrwydd sut a pham i gadw'n iach ei hyrwyddo'n llwyddiannus. Mae'r ysgol yn trefnu nifer o brosiectau cymunedol diddorol i sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn annog rhieni i brynu cynnyrch gardd yr ysgol ac yn hyrwyddo ddyddiau 'cerdded i'r ysgol' yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn darparu'n briodol ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion mewn sesiynau addoli ar y cyd. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i fynd i'r afael â materion presenoldeb a phrydlondeb.

Mae ddarpariaeth effeithiol ar gyfer gwranddo ar bryderon drwy'r sesiynau amser cylch. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd helaeth o arbenigedd asiantaethau fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r gydberthynas hon yn sicrhau cefnogaeth gynnar ac effeithiol iawn pan fo angen.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff eu hanghenion dysgu eu hadnabod yn fuan gan yr athrawon a'r cydlynnydd. Trwy asesiadau rheolaidd, mae'r ysgol yn olrhain eu cynnydd ac yn pennu targedau gwella addas ar eu cyfer. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o asiantaethau arbenigol i gefnogi anghenion pob disgybl sy'n derbyn darpariaeth benodol. Caiff rhieni rôl weithredol yn yr holl brosesau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn llwyddo i greu ethos cynhwysol a chyfeillgar iawn. Mae'r disgyblion yn hapus yng nghwmni ei gilydd ac yn barod iawn i helpu ei gilydd. Mae'r berthynas rhwng y staff a'r disgyblion yn agos iawn gyda'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn sensitif i'w hanghenion ac i ddyheadau eu rhieni.

Mae gan yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i'r cwricwlwm ac mae gweithdrefnau priodol yn eu lle sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol. Mae hyn yn gymorth i sicrhau'r gofal gorau ar eu cyfer.

Er bod yr adeilad yn hen, mae'r safle yn symbylus, lliwgar a deniadol ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae ystod eang o ardaloedd dysgu amrywiol tu fewn a thu allan i'r adeilad a chyflenwad sylweddol o adnoddau o ansawdd da. Defnyddia'r staf yr arddangosfeydd diddorol, sy'n cynnwys gwaith y disgyblion, i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r toiledau'n lân ac addas a chaiff yr holl safle a'r adeilad eu cadw'n raenus.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth yn adnabod yr ysgol yn dda iawn. Mae ganddi weledigaeth glir ac mae'n llwyddo i'w rhannu'n llwyddiannus gyda'r llywodraethwyr, staff, rhieni a'r disgyblion. Mae'r partneriaethau hyn yn sicrhau cyfeiriad strategol unedig ar gyfer yr ysgol. Mae'r holl staff yn cydweithio'n dda iawn i godi safonau. Mae'r holl ddisgyblion a staff yn cael eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt oll gyfrifoldebau penodol iawn i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu gynhwysol. Mae hyn yn cefnogi ethos yr ysgol ac yn cynnig amgylchedd sy'n annog dysgu effeithiol gan feithrin ymdeimlad o falchder yn yr ysgol a'i disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac mae ganddynt ddiddordeb cryf iawn ym mywyd yr ysgol. Mae bron pob un aelod o'r corff yn ymweld â'r ysgol i fonitro agweddau o'r cwricwlwm er mwyn cael darlun ehangach o safonau a pherfformiad yr ysgol. Maent yn mynychu hyfforddiant addas ac mae eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn datblygu.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw dyledus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac mae wedi ennill statws Ysgol Eco ac Ysgol Iach. Mae hefyd wedi ennill marc ansawdd i gydnabod ei gwaith da wrth gynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion. O ystyried cyd-destun yr ysgol, mae hyn yn dipyn o gamp.

Datblygodd yr ysgol system olrhain effeithiol er mwyn dadansoddi cynnydd disgyblion. Mae hyn yn galluogi athrawon i drefnu darpariaeth effeithiol ar gyfer grwpiau o ddisgyblion yn ôl eu hangen.

Gwella ansawdd: Da

Mae gan y pennaeth a'r staff ddealltwriaeth gywir o brif gryfderau'r ysgol yn ogystal â'r meysydd ar gyfer gwella. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer hunanarfarnu yn datblygu'n dda ac yn cynnwys holl staff yr ysgol. Ystyrir ystod eang o dystiolaeth fel rhan o'r broses ac mae barn disgyblion a rhieni yn cael ei chymryd o ddifrif.

Mae'r rhaglen fonitro yn ystyried dadansoddiad ystod o ddata ac arsylwadau gwersi. Mae'n canolbwyntio hefyd ar werthuso effaith prosiectau megis Masnach Deg, Ysgolion Iach ac 'Wythnos Aml-Ddiwylliant' ar safonau. Mae deilliannau'r broses hon yn sail gadarn i'r adroddiad hunanarfarnu.

Mae'r ysgol yn gosod blaenoriaethau addas yn flynyddol yn y cynllun datblygu ysgol. Mae mwyafrif y blaenoriaethau hyn yn nodi targedau mesuradwy er mwyn mesur llwyddiant, ond nid oes ystyriaeth ddigonol o oblygiadau a ffynonellau cyllid.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gref iawn. Ceir gweithdrefnau da iawn ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol holl aelodau'r staff. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol mewn partneriaeth gydag ysgolion eraill, asiantaethau allanol a'r awdurdod lleol ac mae hyn yn arwain at godi safonau.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn dda ac mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at ansawdd y ddarpariaeth ac at y safonau uchel y mae'r disgyblion yn eu cyflawni.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da iawn gyda'r gymuned ac mae'n cyfathrebu'n effeithiol iawn gyda'r rhieni. Mae rhieni yn cadarnhau llwyddiant gweithgareddau megis prosiectau rhyngwladol ac wythnos aml ddiwylliant. Mae'r partneriaethau hyn yn elfennau ardderchog ac yn cyfrannu'n effeithiol iawn at wireddu nodau'r ysgol.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion eraill i safoni asesiadau o waith disgyblion. Maent hefyd yn cydweithio'n dda gyda'r ysgolion cynradd y mae'r disgyblion yn trosglwyddo iddynt ac mae systemau pontio effeithiol yn cael eu gweithredu.

Mae llawer o aelodau o'r gymuned yn cael eu gwahodd i'r ysgol i weithio gyda'r disgyblion. Mae hyn yn cyfoethogi eu haddysg ac yn ehangu eu gwybodaeth mewn amryw o feysydd sy'n cynnwys dinasyddiaeth a gwaith elusennol.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n dda ac mae'r adnoddau'n briodol ar gyfer addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Yn gyffredinol, gwneir defnydd da o amser, profiad ac arbenigedd y staff ac mae'r cydweithio rhwng athrawon a'r staff sydd yn cefnogi dysgu yn dda iawn. Mae yna drefn sefydlog effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad y staff i gyd, sy'n cynnig cyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae athrawon yn gwneud defnydd da o amser cynllunio, paratoi ac asesu, ac mae trefniadau monitro ei effaith yn datblygu'n ddigonol. Mae'r pennaeth, pwyllgor cyllid y corff llywodraethol a swyddogion yr awdurdod lleol yn cydweithio'n effeithiol i reoli cyllideb yr ysgol. Serch hyn, nid yw gwariant wedi'i gysylltu'n ddigon clir â'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol.

O ystyried y safonau da a gyflawnwyd yn gyffredinol, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Gan nad oes data cymharol ar gael i'r ysgol, nid oes modd creu dadansoddiad.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Ymatebodd 60 o rieni i'r holiadur, sy'n ganran sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar draws ysgolion Cymru. Mae gan y rhieni feddwl uchel o'r ysgol ac mae'r ymatebion i bob cwestiwn yn gadarnhaol iawn, ac yn fwy positif na'r cyfartaledd ar draws Cymru.

Mae'r rhieni i gyd yn dweud bod:

- eu plant yn hoffi'r ysgol;
- eu plant wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda;
- eu plant yn gwneud cynnydd da;
- yr addysgu'n dda
- gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- staff yn trin pob plentyn deg;
- eu plant yn cael eu hannog i gadw a bwyta'n iach;
- eu plant yn ddiogel yn yr ysgol;
- yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb;
- eu plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg;
- amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau;
- yr ysgolyn cael eu rhedeg yn dda; ac
- eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.

Mae bron pob un o'r rhieni'n dweud:

- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn cael cymorth ychwanegol yn ôl yr angen;
- bod yr ysgol yn rhoi gwybodaeth gyson am gynnydd disgyblion;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â chodi cwestiwn, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; ac
- eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Terwyn Tomos	Arolygydd Cofnodol
Dyfrig Wyn Ellis	Arolygydd Tîm
Glenda Jones	Arolygydd Lleyg
Sioned Thomas	Arolygydd Cymheiriaid
Eireen Jones	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.